## A fydd unrhyw un yn cysylltu â mi?

Mae Cofrestrfa Genedlaethol Canser yn gweithio gydag ymchwilwyr i wella'r ddealltwriaeth o ganser. Mae hyn fel arfer gyda gwybodaeth na fyddai'n enwi person.

Weithiau, ar gyfer rhai astudiaethau, gall fod angen i ymchwilydd gysylltu â chleifion. Mae hyn yn cael ei wneud o dan amodau caeth a byddai angen cael eich caniatâd trwy eich meddyg cyn i hyn ddigwydd.

## A oes dewis gennyf?

Oes, mae gennych hawl i ddewis peidio cael eich cynnwys ac ni fydd hyn yn effeithio ar y gofal y byddwch yn ei dderbyn.

Fodd bynnag, er mwyn iddi weithio'n iawn, mae angen i'r system gofrestru wybod am bawb sydd â chanser.

Mae eich manylion yn helpu timau gofal i ddysgu beth yw'r ffordd orau o drin canser, sicrhau eu bod yn darparu'r gofal gorau ac yn helpu i ganfod achos canser.

Os ydych yn poeni am gofrestru eich manylion neu unrhyw faterion ar y daflen hon, trafodwch hyn gyda'ch meddyg neu ysgrifennwch atom ni yng Nghofrestrfa Genedlaethol Canser Cymru:

E bost:

WCISU.enquires@Wales.nhs.uk

## Ble allaf gael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gael mwy o wybodaeth trwy:

- Ofyn i'ch Meddyg
- Mynd i wefan cofrestrfa genedlaethol canser Cymru yn www.WCISU.Wales.nhs.uk

Gellir lawrlwytho mwy o gopïau o'r daflen hon ar wefan Uned Gwybodaeth ac Arolygiaeth Canser Cymru.
www.WCISU.Wales.nhs.uk

Diwygiwyd Hydref 2016

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



# Ynglŷn â Chofrestru Canser

## Taflen ar gyfer cleifion

## Beth yw cofrestru  canser?

Pan fydd rhywun sydd yn byw yng Nghymru'n cael diagnosis o ganser neu gyflwr a allai arwain at ganser, mae'r meddyg neu'r ysbyty'n cofnodi'r manylion perthnasol. Mae hyn yn berthnasol i bobl o bob oed, yn cynnwys plant.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan Gofrestrfa Genedlaethol Canser Cymru ac rydym eisiau sicrhau bod cleifion yn gwybod bod hyn yn digwydd.

## Pam fod angen cofrestru?

Cofrestru yw'r unig ffordd y gallwn weld faint o bobl sy'n cael canser a pha fathau o ganser sydd ganddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o wledydd y byd system gofrestru yn cynnwys Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Dechreuwyd cofrestru canser yng Nghymru yn ôl ym 1972.

Trwy weithio gydag ymchwilwyr canser, mae cofrestrfeydd canser wedi gallu nodi achosion rhai canserau. Mae hefyd yn ein galluogi i edrych ar y ffordd y mae cleifion canser yn cael eu trin a pha mor llwyddiannus y mae triniaethau wedi bod ar gyfer mathau gwahanol o ganser. Mae cofrestru yn ein helpu hefyd i sicrhau bod rhaglenni sgrinio canser yn gweithio.

Mae cofrestru yn dangos a yw nifer y bobl sy'n cael canser yn cynyddu neu'n gostwng, er mwyn i'r gwasanaeth iechyd sicrhau bod gwasanaethau a staff ar gael yn y lle iawn.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chofrestru yn hanfodol ar gyfer ymchwil i ganser. Dyma rai enghreifftiau o wybodaeth iechyd a wnaed yn bosibl trwy ddefnyddio gwybodaeth cofrestru canser yng Nghymru;

- Mae cyfraddau cyffredinol marwolaethau yn sgil canser yng Nghymru wedi gostwng
- Canserau'r fron, y brostad a'r coluddyn yw'r rhai mwyaf cyffredin yng Nghymru
- Dangosodd Melanoma canser y croen, y cynnydd mwyaf mewn niferoedd dros y ddeng mlynedd diwethaf
- Yng Nghymru, mae nifer y marwolaethau yn sgil canser yr ysgyfaint yn fwy na chanser y coluddyn a chanser y fron gyda'i gilydd

Ni fyddem yn gwybod unrhyw un o'r ffeithiau hyn heb gofrestru canser.

Mae cofrestru canser yn hanfodol ar gyfer cynnydd yn erbyn canser, ac fe'i cefnogir gan y Cynghrair Canser Cymru, elusennau canser eraill yn y DU a grwpiau cleifion canser.

## Beth sydd angen I chi ei wybod amdanaf i?

Er mwyn cofrestru eich achos o ganser mae angen i ni gael rhai manylion amdanoch chi (fel eich enw, eich cyfeiriad, eich oed a'ch rhyw) yn ogystal â gwybodaeth am y math o ganser neu gyflwr sydd gennych, a'ch triniaethau.

I gael darlun cyflawn byddwn hefyd yn edrych ar gyflyrau eraill sydd gennych, fel clefyd y galon, a allai effeithio ar oroesi canser.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu ystadegau canser, adroddiadau ac ar gyfer ymchwil. Gall ein helpu ni i nodi achosion posibl canser a chanfod y triniaethau gorau, er enghraifft.

## A oes angen I mi wneud unrhyw beth?

Nac oes, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth – nid oes angen llenwi unrhyw ffurflenni na llofnodi unrhyw beth.

Bydd eich ysbyty neu feddyg yn trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol yn gyfrinachol i'ch cofrestrfa ganser leol yn ystod eich gofal.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn cael ei reoli gan y gyfraith ac rydym yn cael ein llywodraethu gan reolau caeth am y ffordd yr ydym yn gofalu amdani a phwy all ei defnyddio.

Rydym yn cadw'r wybodaeth ar gyfrifiaduron mewn lle diogel gyda chyfrineiriau diogel. Mae'n gwbl gyfrinachol ac ond ar gael i staff priodol.

Mae adroddiadau neu ddata yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer dadansoddi neu gyhoeddi yn ddi-enw ac ni fyddwn byth yn enwi unrhyw berson penodol, hyd yn oed os oes ganddynt fath prin o ganser.